Cyllid & Tollau EM

# Ffurflen Dreth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2006

UTR
Cyfeirnod Treth
Cyfeirnod y Cyflogwr

Dyddiad

Cyfeiriad Swyddfa Cyllid a Thollau EM

Cyfarwyddwr yr Ardal

Ffôn

Cyfeiriad dosbarthu

Ar gyfer
Cyfeirnod

**Darllenwch y dudalen hon yn gyntaf cyn dechrau cwblhau eich Ffurflen Dreth.**
*Bydd y saethau a'r cyfarwyddiadau gwyrdd yn eich arwain drwy eich Ffurflen Dreth*

***Mae'r Hysbysiad*** *hwn yn ei gwneud yn ofynnol, yn ôl y gyfraith, i chi anfon Ffurflen Dreth ac unrhyw ddogfennau gofynnaf amdanynt ataf, yn cynnwys manylion eich incwm a'ch enillion cyfalaf ar gyfer y flwyddyn o 6 Ebrill 2005 i 5 Ebrill 2006.*

## *Terfynau amser*

*Dylech sicrhau bod eich Ffurflen Dreth yn fy nghyrraedd erbyn:*

- ***30 Medi 2006*** *a dau fis ar ôl y dyddiad yr anfonwyd yr Hysbysiad hwn atoch, os ydych am i mi gyfrifo eich treth,* **NEU**
- ***31 Ionawr 2007*** *a thri mis ar ôl y dyddiad yr anfonwyd yr Hysbysiad hwn atoch, os byddwch yn cyfrifo eich treth eich hun. Os methwch y dyddiad hwn gallech fod yn agored i gosb.*

*Ac mae'n rhaid i chi dalu'r dreth sy'n ddyledus erbyn:*

- ***31 Ionawr 2007*** *i osgoi llog a gordaliadau.*

## *Gallwch wneud hyn drwy –*

- *cyflwyno ar-lein – mae'n ddiogel, yn gyflym a chaiff eich cyfrifiad treth ei wneud drosoch yn awtomatig. Cofrestrwch yn* **www.hmrc.gov.uk** *ar gyfer y gwasanaeth ar-lein trwy ddewis 'Cymraeg' ac yna 'ewch ar-lein'*
- *cwblhau'r ffurflen hon ac unrhyw dudalennau atodol a fydd angen arnoch*
- *defnyddio ffurflen dreth bapur arall a gymeradwywyd gan Gyllid a Thollau EM.*

*Rydym yma os bydd angen help arnoch – ar-lein, ar y ffôn (eich swyddfa eich hun neu'r llinell gymorth pan fydd y swyddfa ar gau), neu'n bersonol.*

***Os cwblhewch ffurflen dreth anwir gallech fod yn agored i gosbau a llog.***

***Cyfarwyddwr yr Ardal***

SA100 (Cymraeg)



*Trowch drosodd*

# INCWM AC ENILLION CYFALAF *ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2006*

**Cam 1**

Atebwch Gwestiynau 1 i 9 isod i ddarganfod a oes angen Tudalennau atodol arnoch er mwyn rhoi manylion incwm neu enillion cyfalaf neilltuol. Bydd tudalennau 6 a 7 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth yn eich helpu. (Gofynnwch i'r Llinell Archebu am gopi o'r Canllaw os nad anfonwyd un atoch gyda'ch Ffurflen Dreth).

Os atebwch yn gadarnhaol, gofynnwch i'r Llinell Archebu am Dudalennau a Nodiadau atodol perthnasol.

**Ffoniwch y Llinell Archebu ar 0845 302 1489 neu'r ffacs ar 01766 516 100 ar gyfer unrhyw rai sydd eu hangen arnoch.**

**Neu ewch i www.hmrc.gov.uk**

Os ydych yn byw neu'n gweithio dramor gallwch ffonio'r Llinell Archebu ar **(+44) 161 930 8331** neu ffacs **(+44) 161 930 8444.** Mae'r Llinell Archebu ar gau ar Ddydd Nadolig, Dydd San Steffan a Dydd Calan.

*Os bydd angen tudalennau atodol arnoch, ticiwch y blychau isod pan fyddwch wedi'u derbyn.*

| | Cwestiwn | Ateb | Tudalennau atodol |
|---|---|---|---|
| **C1** | A oeddech yn weithiwr, neu'n ddeiliad swydd, neu'n gyfarwyddwr, neu'n weithiwr asiantaeth neu a dderbynioch daliadau neu fuddiannau gan gyn gyflogwr (ac eithrio pensiwn) yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2006? Os oeddech yn gyfarwyddwr cwmni yn y DU ond heb fod yn breswylydd a heb dderbyn cydnabyddiaeth, gweler y Nodiadau i'r Tudalennau Cyflogaeth, tudalen EN2. | OEDDWN ☐ | CYFLOGAETH ☐ |
| **C2** | A oedd gennych unrhyw incwm trethadwy o opsiynau gwarantau, opsiynau cyfranddaliadau, cyfranddaliadau neu fuddiannau sy'n gysylltiedig â chyfranddaliadau yn ystod y flwyddyn? (Nid yw hyn yn cynnwys<br>- difidendau, **neu**<br>- cyfranddaliadau difidend sy'n peidio â bod yn atebol i gynllun annog perchenogaeth cyfranddaliadau a gymeradwyir gan Gyllid a Thollau EM o fewn 3 blynedd o'u caffael - maent yn mynd yng Nghwestiwn 10). | OEDD ☐ | CYNLLUNIAU CYFRANDDALIADAU ☐ |
| **C3** | A oeddech yn hunangyflogedig (ond nid mewn partneriaeth)? (Ticiwch 'Oeddwn' hefyd os oeddech yn Enw yn Lloyd's) | OEDDWN ☐ | HUNANGYFLOGAETH ☐ |
| **C4** | A oeddech mewn partneriaeth? | OEDDWN ☐ | PARTNERIAETH ☐ |
| **C5** | A dderbynioch unrhyw rent neu incwm arall o dir ac eiddo yn y DU? | DO ☐ | TIR AC EIDDO ☐ |
| **C6** | A oedd gennych unrhyw incwm trethadwy o bensiynau neu fudd-daliadau dramor, neu gwmnïau tramor neu sefydliadau cynilo tramor, cronfeydd neu ymddiriedolaethau alltraeth dramor, neu o dir ac eiddo dramor neu enillion ar bolisïau yswiriant bywyd tramor? | OEDD ☐ | |
| | A ydych neu a allech fod wedi derbyn, neu wedi meddu ar yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu wedi elwa mewn unrhyw ffordd ar, incwm o endid tramor o ganlyniad i drosglwyddo asedion a wnaed yn y flwyddyn hon neu mewn blynyddoedd cynharach? | YDW ☐ | |
| | A ydych am wneud cais am ryddhad credyd treth ar gyfer treth dramor a dalwyd ar incwm neu enillion tramor? | YDW ☐ | TRAMOR ☐ |
| **C7** | A dderbynioch unrhyw incwm, neu a dybir i chi dderbyn incwm o ymddiriedolaeth, setliad neu weddill ystad person ymadawedig? | DO ☐ | YMDDIRIEDOLAETHAU AC ATI ☐ |
| **C8** | Enillion cyfalaf - darllenwch dudalen 7 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth.<br>• Os gwaredwyd eich unig neu eich prif breswylfan, a oes angen y Tudalennau Enillion Cyfalaf arnoch? | OES ☐ | |
| | • A waredwyd asedion trethadwy eraill a oedd yn werth mwy na £34,000 gennych? | DO ☐ | |
| | • Os atebwch yn gadarnhaol i un o'r cwestiynau isod ticiwch y blwch â *:<br>– os didynnwyd colledion caniataol o'ch enillion trethadwy, sy'n fwy na £8,500 cyn y didyniad a chyn rhoi rhyddhad meinhau, neu<br>– os ni ddidynnir colledion caniataol o'ch enillion trethadwy ac ar ôl rhoi rhyddhad meinhau mae eich enillion trethadwy yn fwy na £8,500 neu<br>– os ydych am wneud cais neu ddewis am y flwyddyn. | * ☐ | ENILLION CYFALAF ☐ |
| **C9** | A ydych yn ystyried, (a) nad oeddech yn breswylydd yn y DU, a/neu (b) nad oeddech yn breswylydd arferol yn y DU, a/neu (c) nad oedd eich domisil yn y DU ac roedd hyn yn berthnasol ar gyfer eich treth incwm neu'ch treth enillion cyfalaf, neu (ch) eich bod yn breswylydd deublyg yn y DU ac mewn gwlad arall, ar gyfer y flwyddyn gyfan neu ar gyfer rhan o'r flwyddyn? | YDW ☐ | DI-BRESWYL AC ATI ☐ |

**Cam 2**

**Cwblhewch unrhyw Dudalennau atodol CYN mynd ymlaen i Gam 3.**

**Defnyddiwch inc glas neu ddu i gwblhau eich Ffurflen Dreth a pheidiwch â chynnwys ceiniogau.** Talgrynnwch eich incwm a'ch enillion i lawr i'r bunt agosaf. Talgrynnwch eich credydau treth a'ch didyniadau treth i fyny i'r bunt agosaf.

Ticiwch y blwch hwn pan fyddwch wedi cwblhau eich Tudalennau atodol. ☐

**Cam 3**

Cwblhewch Gwestiynau 10 i 24. Os atebwch yn gadarnhaol, cwblhewch y blychau perthnasol. Os nad yw'n gymwys, ewch ymlaen i'r cwestiwn nesaf.

UG 12/05. L18369

## C10 A dderbynioch chi unrhyw incwm o gynilion a buddsoddiadau yn y DU? DO

**Os do,** ticiwch y blwch hwn a chwblhewch flychau 10.1 i 10.26 fel y bo'n briodol. Dim ond eich cyfran chi o unrhyw gynilion a buddsoddiadau ar y cyd y dylech ei chynnwys. Os nad yw'n gymwys, ewch i Gwestiwn 11.

### ■ *Llog a derbyniadau ariannu amgen*

- Llog a derbyniadau ariannu amgen o fanciau neu gymdeithasau adeiladu yn y DU, gan gynnwys cyfrifon Rhyngrwyd yn y DU.)
  *Os oes mwy nag un cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu gennych nodwch y **cyfanswm** yn y blychau.*

  - nodwch unrhyw log a derbyniadau ariannu amgen o fanc neu gymdeithas adeiladu **pan na fydd** unrhyw dreth wedi cael ei didynnu. (Fel arfer trethir llog a derbyniadau ariannu amgen cyn i chi eu derbyn, felly gwnewch yn siŵr y dylech gwblhau blwch 10.1, yn hytrach na blychau 10.2 i 10.4). Nodwch mathau eraill o log a derbyniadau ariannu amgen ym mlychau 10.5 i 10.14 fel y bo'n briodol.

    Swm trethadwy **10.1** £

  - nodwch fanylion llog a drethwyd o fanc neu gymdeithas adeiladu a derbyniadau ariannu amgen a drethwyd.
    *Bydd y Daflen Waith ar dudalen 11 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth yn eich helpu i gwblhau blychau 10.2 i 10.4.*

| Swm **ar ôl** didynnu treth | Treth a ddidynnwyd | Swm gros **cyn** treth |
|---|---|---|
| **10.2** £ | **10.3** £ | **10.4** £ |

- Dosbarthiadau llog o ymddiriedolaethau uned a chwmnïau buddsoddi pen agored awdurdodedig yn y DU (mae dosbarthiadau difidend yn mynd isod)

| Swm **ar ôl** didynnu treth | Treth a ddidynnwyd | Swm gros **cyn** treth |
|---|---|---|
| **10.5** £ | **10.6** £ | **10.7** £ |

- Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol (heblaw Bondiau First Option, Bondiau Cynilo Cyfradd Sefydlog a'r £70 cyntaf o log o Gyfrif Cyffredin)

  Swm trethadwy **10.8** £

- Bondiau First Option a Bondiau Cynilo Cyfradd Sefydlog Cynilion Cenedlaethol a Buddsoddiadau

| Swm **ar ôl** didynnu treth | Treth a ddidynnwyd | Swm gros **cyn** treth |
|---|---|---|
| **10.9** £ | **10.10** £ | **10.11** £ |

- Incwm arall o gynilion a buddsoddiadau yn y DU (heblaw difidendau)

| Swm **ar ôl** didynnu treth | Treth a ddidynnwyd | Swm gros **cyn** treth |
|---|---|---|
| **10.12** £ | **10.13** £ | **10.14** £ |

### ■ *Difidendau*

- Difidendau a dosbarthiadau cymhwysol eraill o gwmnïau yn y DU

| Difidend/dosbarthiad | Credyd treth | Difidend/dosbarthiad **plws** credyd |
|---|---|---|
| **10.15** £ | **10.16** £ | **10.17** £ |

- Dosbarthiadau difidend o ymddiriedolaethau uned a chwmnïau buddsoddi pen agored awdurdodedig yn y DU

| Difidend/dosbarthiad | Credyd treth | Difidend/dosbarthiad **plws** credyd |
|---|---|---|
| **10.18** £ | **10.19** £ | **10.20** £ |

- Difidendau stoc o gwmnïau yn y DU

| Difidend | Treth dybiannol | Difidend **plws** treth dybiannol |
|---|---|---|
| **10.21** £ | **10.22** £ | **10.23** £ |

- Dosbarthiadau anghymwysol a benthyciadau a ddilëwyd

| Dosbarthiad/Benthyciad | Treth dybiannol | Swm trethadwy |
|---|---|---|
| **10.24** £ | **10.25** £ | **10.26** £ |



*Trowch drosodd*

**C11** **A dderbynioch chi bensiwn trethadwy, blwydd-dâl ymddeol, budd-dâl Nawdd Cymdeithasol neu Daliad Statudol yn y DU?**
*Darllenwch y nodiadau ar dudalennau 13, 14 a 15 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth.*

DO ☐

**Os do,** ticiwch y blwch hwn a chwblhewch flychau 11.1 i 11.14 fel y bo'n briodol.
Os nad yw'n gymwys, ewch i Gwestiwn 12.

■ ***Pensiynau a budd-daliadau'r Wladwriaeth***

| | Swm trethadwy ar gyfer 2005-06 |
|---|---|
| • Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth - *nodwch **gyfanswm** eich hawliadau am y flwyddyn* | 11.1 £ |
| • Pensiwn Gwraig Weddw neu Lwfans Profedigaeth | 11.2 £ |
| • Lwfans Mam Weddw neu Lwfans Rhiant Gweddw | 11.3 £ |
| • Pensiwn Budd-dâl Marwolaeth Ddiwydiannol | 11.4 £ |
| • Lwfans Ceisio Gwaith | 11.5 £ |
| • Lwfans Gofalwr | 11.6 £ |
| • Tâl Salwch, Tâl Mamolaeth, Tâl Tadolaeth a Thâl Mabwysiadu Statudol a dalwyd gan Gyllid a Thollau EM | 11.7 £ |

| | Treth a ddidynnwyd | Swm gros cyn treth |
|---|---|---|
| • Budd-dâl Analluogrwydd trethadwy | 11.8 £ | 11.9 £ |

■ ***Pensiynau a blwydd-daliadau ymddeol eraill***

| | Swm **ar ôl** didynnu treth | Treth a ddidynnwyd | Swm gros **cyn** treth |
|---|---|---|---|
| • Pensiynau (heblaw pensiynau'r Wladwriaeth) a blwydd-daliadau ymddeol - *os ydych yn derbyn mwy nag un pensiwn neu flwydd-dâl, adiwch hwy at ei gilydd a chwblhewch flychau 11.10 i 11.12. Rhowch fanylion pob un ym mlwch 11.14* | 11.10 £ | 11.11 £ | 11.12 £ |

| | Swm y didyniad | |
|---|---|---|
| • Didyniad - *gweler y nodyn ar gyfer blwch 11.13 ar dudalen 15 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth* | 11.13 £ | 11.14 |

**C12** **A wnaethoch chi unrhyw enillion ar bolisïau bywyd, blwydd-daliadau bywyd neu bolisïau ad-bryniant cyfalaf y DU neu dderbyn ad-daliadau o gronfeydd arian sy'n weddill o gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol?**

DO ☐

**Os do,** ticiwch y blwch hwn a chwblhewch flychau 12.1 i 12.12 fel y bo'n briodol.
Os nad yw'n gymwys, ewch i Gwestiwn 13.

| | Nifer y blynyddoedd | | Swm yr ennill (enillion) |
|---|---|---|---|
| • Enillion ar flwydd-daliadau a pholisïau yswiriant bywyd cymdeithasau cyfeillgar yn y DU lle na chaiff unrhyw dreth ei thrin fel treth a dalwyd | 12.1 | | 12.2 £ |

| | Nifer y blynyddoedd | Triniwyd treth fel treth a dalwyd | Swm yr ennill (enillion) |
|---|---|---|---|
| • Enillion ar bolisïau bywyd y DU lle y trinnir treth fel treth a dalwyd - *darllenwch y nodiadau ar dudalennau 16 i 18 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth* | 12.3 | 12.4 £ | 12.5 £ |

| | Nifer y blynyddoedd | Treth a ddidynnwyd | Swm yr ennill (enillion) |
|---|---|---|---|
| • Enillion ar bolisïau yswiriant bywyd mewn ISAs a gafodd eu gwneud yn ddirym | 12.6 | 12.7 £ | 12.8 £ |

| | Swm |
|---|---|
| • Rhyddhad diffyg | 12.9 £ |

| | Swm a dderbyniwyd | Treth dybiannol | Swm plws treth dybiannol |
|---|---|---|---|
| • Ad-daliadau o gronfeydd arian sy'n weddill o gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol | 12.10 £ | 12.11 £ | 12.12 £ |

**C13** **A dderbynioch chi unrhyw incwm trethadwy arall nad ydych eisoes wedi ei nodi rywle arall ar eich Ffurflen Dreth?**
*Cwblhewch unrhyw Dudalennau atodol **cyn** ateb Cwestiwn 13.*
*(Mae Tudalennau Atodol ar gael o'r Llinell Archebu neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**)*

DO ☐

**Os do,** ticiwch y blwch hwn a chwblhewch flychau 13.1 i 13.6 fel y bo'n briodol.
Os nad yw'n gymwys, ewch i Gwestiwn 14.

| | Swm **ar ôl** didynnu treth | Treth a ddidynnwyd | Swm **cyn** treth |
|---|---|---|---|
| • Incwm trethadwy arall – rhowch fanylion hefyd ym mlwch 23.9 – *darllenwch y nodiadau ar dudalennau 19 i 20 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth* | 13.1 £ | 13.2 £ | 13.3 £ |

| | | Colledion a ddygwyd ymlaen | Colledion blynyddoedd cynharach a ddefnyddiwyd yn 2005-06 |
|---|---|---|---|
| • Ticiwch flwch 13.1A os ydych wedi hawlio lwfansau cyfalaf uwch ar gyfer offer a pheiriannau penodol sy'n llesol i'r amgylchedd, i bennu'r ffigur ym mlwch 13.1 | 13.1A | 13.4 £ | 13.5 £ |

| Colledion 2005-06 a gariwyd ymlaen |
|---|
| 13.6 £ |

UG 12/05. L18369

# RHYDDHAD *ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2006*

## C14 A ydych am wneud cais am ryddhad ar gyfer cyfraniadau pensiwn?

***Peidiwch â chynnwys** cyfraniadau a ddidynnwyd o'ch cyflog gan eich cyflogwr i'w cynllun pensiwn hwy, neu gynllun AVC perthynol gan y rhoddir rhyddhad treth yn awtomatig. Ond **dylech** gynnwys eich cyfraniadau i gynlluniau pensiwn personol a chynlluniau AVC rhydd.*

YDW ☐

**Os ydw,** ticiwch y blwch hwn a chwblhewch flychau 14.1 i 14.11 fel y bo'n briodol. Os nad yw'n gymwys, ewch i Gwestiwn 15.

■ ***Taliadau i'ch contractau blwydd-dâl ymddeol - cwblhewch flychau 14.1 i 14.5 ar gyfer polisïau a gychwynnwyd cyn 1 Gorffennaf 1988.*** *Gweler y nodiadau ar dudalen 21 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Taliadau cymwys a wnaed yn 2005-06 | **14.1** £ | Taliadau 2005-06 defnyddiwyd mewn blwyddyn gynharach | **14.2** £ | Rhyddhad a hawliwyd: blwch 14.1 *llai* (blychau 14.2 a 14.3) |
| Taliadau 2005-06 i'w cario'n ôl nawr | **14.3** £ | | *ni ddefnyddir blwch 14.4* | **14.5** £ |

■ ***Taliadau i'ch cytundebau pensiwn personol (yn cynnwys pensiwn cyfranddeiliad)** - nodwch y swm a dalwyd gennych ynghyd â'r dreth ar y gyfradd sylfaenol (y taliad **gros**). Gweler y nodyn ar gyfer blwch 14.6 ar dudalennau 22 a 23 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth.*

| | | |
|---|---|---|
| Taliadau gros cymhwysol a wnaed yn 2005-06 | **14.6** £ | Rhyddhad a hawliwyd: blwch 14.6 *llai* blwch 14.7 |
| Taliadau gros 2005-06 a gariwyd yn ôl i 2004-05 | **14.7** £ | **14.9** £ |
| | *ni ddefnyddir blwch 14.8* | |

■ ***Cyfraniadau i gynlluniau pensiwn eraill a chynlluniau AVC rhydd***

- Swm y cyfraniadau i gynlluniau'r cyflogwr **nas didynnwyd** o'r ffynhonnell cyn derbyn eich cyflog — **14.10** £
- Swm gros y cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol rhydd a dalwyd ym 2005-06 — **14.11** £

## C15 A ydych am wneud cais am un o'r mathau canlynol o ryddhad?

*Os gwnaethoch unrhyw daliadau blynyddol, ar ôl didynnu'r dreth sylfaenol, atebwch 'Ydw' i Gwestiwn 15 a chwblhewch flwch 15.9. Os rhoddoch rodd i elusen ewch i Gwestiwn 15A.*

YDW ☐

**Os ydw,** ticiwch y blwch hwn a chwblhewch flychau 15.1 i 15.12 fel y bo'n briodol. Os nad yw'n gymwys, ewch i Gwestiwn 15A.

- Llog a thaliadau ariannu amgen sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad ar fenthyciadau a threfniadau cymhwysol — Swm y taliad **15.1** £
- Taliadau cynhaliaeth neu alimoni a wnaethoch o dan orchymyn llys, asesiad yr Asiantaeth Cynnal Plant neu orchymyn neu gytundeb sy'n rhwymo'n gyfreithiol. — Swm a hawliwyd hyd at £2,280 **15.2** £

  I hawlio'r rhyddhad hwn, rhaid fod naill ai chi neu eich cyn briod neu eich partner sifil yn 65 neu'n hŷn ar 5 Ebrill 2000. Felly, os **yw'ch** dyddiad geni, sydd i'w nodi ym mlwch 22.6, ar ôl 5 Ebrill 1935, nodwch ddyddiad geni eich cyn briod neu eich cyn bartner sifil ym mlwch 15.2A - *gweler tudalen 24 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth* — Dyddiad geni eich cyn briod/ bartner sifil **15.2A** / /
- Tanysgrifiadau ar gyfer cyfranddaliadau Ymddiriedolaeth Cyfalaf Mentro (hyd at £200,000) — Swm y gwnaed cais am ryddhad **15.3** £
- Tanysgrifiadau o dan y Cynllun Buddsoddiad Menter (hyd at £200,000) - *rhowch fanylion hefyd ym mlwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 23.9, ar dudalen 10 - gweler tudalen 24 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth* — Swm y gwnaed cais am ryddhad **15.4** £
- Rhyddhad Treth am Fuddsoddiad Cymunedol – y swm a fuddsoddwyd mewn blwyddyn/blynyddoedd treth blaenorol ac y mae rhyddhad yn ddyledus — **15.5** £
- Rhyddhad Treth am Fuddsoddiad Cymunedol – y swm a fuddsoddwyd yn y flwyddyn dreth gyfredol — **15.6** £ — Swm y gwnaed cais am ryddhad: blwch 15.5 + blwch 15.6 **15.7** £
- Treuliau ôl-derfynu, colledion cyn-ymgorffori a ddygwyd ymlaen a cholledion ar warantau â gostyngiad llawn ac ati - *gweler tudalen 25 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth* — Swm y taliad/colled **15.8** £
- Blwydd-daliadau masnachol a breindaliadau patent — Taliadau a wnaed **15.9** £
- Taliadau i undeb llafur neu gymdeithas gyfeillgar ar gyfer budd-daliadau marwolaeth — Hanner swm y taliad **15.10** £
- Taliadau i gynllun budd-dâl gorfodol eich cyflogwr ar gyfer gwraig weddw, gŵr gweddw neu bartner sifil goroesol neu blant amddifaid - *ar gael mewn rhai amgylchiadau – darllenwch y nodiadau ar dudalen 26 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth **yn gyntaf.*** — Rhyddhad a hawliwyd **15.11** £
- Rhyddhad y gwnaed cais amdano ar ddosbarthiad cymwys ar **ad-bryniant** cyfranddaliadau bonws neu warantau. — Rhyddhad a hawliwyd **15.12** £

## C15A A ydych wedi rhoi unrhyw roddion i elusennau?

YDW

*Atebwch 'Ydw' os gwnaethoch unrhyw daliadau 'Rhodd Cymorth' neu os ydych am hawlio rhyddhad am roddion o fuddsoddiadau cymhwysol i elusen. Dylech gynnwys taliadau Rhodd Cymorth i Glybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol yma. Gallwch ddewis gynnwys yn y Ffurflen Dreth hon, daliadau Rhodd Cymorth a wnaed rhwng 6 Ebrill 2006 a'r dyddiad a ddychwelwch y Ffurflen hon. Gweler tudalennau 26 a 27 yn y Canllaw i'r Ffurflen Dreth.*

**Os 'ydw'**, ticiwch y blwch hwn ac yna darllenwch dudalennau 26 a 27 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth. Cwblhewch flychau 15A.1 i 15A.7 fel y bo'n briodol. Os nad yw'n gymwys, ewch i Gwestiwn 16.

- Taliadau Rhodd Cymorth, gan gynnwys taliadau o dan gyfamodau elusennol a wnaed rhwng 6 Ebrill 2005 a 5 Ebrill 2006 — **15A.1** £
- Cyfanswm y taliadau 'unigol' a gynhwyswyd ym mlwch 15A.1 — **15A.2** £
- Y taliadau Rhodd Cymorth a wnaed ar ôl 5 Ebrill 2005 ond a gawsant eu trin fel petaent wedi eu talu yn y flwyddyn dreth 2004-05 — **15A.3** £
- Y taliadau Rhodd Cymorth a wnaed ar ôl 5 Ebrill 2006 ond a gawsant eu trin fel petaent wedi eu talu yn y flwyddyn dreth 2005-06 — **15A.4** £
- Cyfanswm y rhyddhad a hawliwyd yn 2005-06 — blwch 15.A1 + blwch 15A.4 *llai* blwch 15A.3 — **15A.5** £
- Rhoddion o fuddsoddiadau cymwys i elusennau – cyfranddaliadau a gwarantau — **15A.6** £
- Rhoddion o fuddsoddiadau cymwys i elusennau – eiddo real — **15A.7** £

## C16 A ydych am wneud cais am lwfans person dall neu lwfans pâr priod?

YDW

*Cewch eich lwfans personol o £4,895 yn awtomatig.*
***Os cawsoch eich geni cyn 6 Ebrill 1941, nodwch eich dyddiad geni ym mlwch 22.6***
*- efallai y cewch lwfans personol uwch ar sail oedran.*

**Os 'ydw'**, ticiwch y blwch hwn ac yna darllenwch dudalennau 27 i 29 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth. Cwblhewch flychau 16.1 i 16.17 fel y bo'n briodol. Os nad yw'n gymwys, ewch i Gwestiwn 17.

■ *Lyfans person dall*

| | Dyddiad cofrestru (os mai hon yw'r flwyddyn gyntaf y gweinir cais) | Awdurdod lleol (neu gofrestr arall) |
|---|---|---|
| | **16.1** / / | **16.2** |

■ *Lwfans pâr priod -*

Gallwch hawlio'r lwfans hwn dim ond os cawsoch chi neu eich priod neu eich partner sifil eich geni cyn 6 Ebrill 1935, a:

- rydych yn ddyn priod neu'n wraig briod a briododd cyn 5 Rhagfyr 2005, neu
- rydych yn ddyn priod neu'n wraig briod neu'n bartner sifil a briododd neu a ffurfiodd bartneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005.

Mae'r lwfans yn cynnwys dau swm – isafswm (sy'n werth hyd at £288) a swm ar sail oedran, sy'n dibynnu ar incwm y gŵr (ar gyfer priodasau cyn 5 Rhagfyr 2005) neu'r person â'r incwm uchaf (ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil a ffurfiwyd ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005). *Defnyddir rheolau arbennig os ydych yn wraig briod neu'n bartner sifil ond nid chi sydd â'r incwm uchaf. Cewch arweiniad pellach yn eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth, gan ddechrau ar dudalen 27.*

Os cawsoch chi **a'ch** priod **neu'ch** partner sifil eich geni ar ôl 5 Ebrill 1935 ni allwch wneud cais. Peidiwch â chwblhau blychau 16.3 i 16.13.

**Os gallwch wneud cais cwblhewch flychau 16.3 a 16.4.**

- Nodwch eich dyddiad geni (os yw cyn 6 Ebrill 1935) — **16.3** / /
- Nodwch ddyddiad geni eich priod neu eich partner sifil (**dim ond** os yw cyn 6 Ebrill 1935 **ac** yn hŷn na chi). — **16.4** / /

**Yna**, os ydych yn ddyn priod a briododd cyn 5 Rhagfyr 2005, neu os gwnaethoch briodi neu ffurfio bartneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005 ac mae'r incwm uchaf gennych chi cwblhewch flychau 16.5 i 16.9.

Os ydych yn wraig briod a briododd cyn 5 Rhagfyr 2005, neu gwnaethoch briodi neu ffurfio partneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005 ond nid chi sydd â'r incwm uchaf, **cwblhewch flychau 16.10 i 16.13** i hawlio hanner neu'r cyfan o isafswm y lwfans pâr priod.

- Enw llawn y priod neu bartner sifil — **16.5**
- Dyddiad y briodas neu ddyddiad ffurfio'r bartneriaeth sifil (os ar ôl 5 Ebrill 2005) — **16.6** / /

- Ticiwch flwch 16.7, neu flwch 16.8 pan fo hanner neu'r cyfan o isafswm y lwfans wedi ei ddyrannu i'ch gwraig, eich gŵr neu'ch partner sifil. — Hanner **16.7** — Y Cyfan **16.8**

UG 12/05. L18369

# GWYBODAETH ARALL *ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2006*

- Nodwch ym mlwch 16.9 ddyddiad geni unrhyw gyn-wraig, cyn ŵr neu gyn bartner sifil y buoch yn byw gyda hwy am unrhyw gyfnod yn ystod 2005-06. *Darllenwch 'Rheolau arbennig os ydych yn briod neu os gwnaethoch ffurfio partneriaeth sifil yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2006' ar dudalen 28 cyn cwblhau blwch 16.9.* **16.9** / /

- Ticiwch flwch 16.10, neu flwch 16.11 pan fo hanner neu'r cyfan o isafswm y lwfans wedi ei ddyrannu i chi. Hanner **16.10** Y Cyfan **16.11**

- Enw llawn y priod neu bartner sifil **16.12**
- Dyddiad y briodas neu ddyddiad ffurfio'r bartneriaeth sifil (os ar ôl 5 Ebrill 2005) **16.13** / /

■ ***Trosglwyddo lwfansau sy'n weddill*** - *gweler tudalen 29 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth cyn cwblhau blychau 16.14 i 16.17.*

- Ticiwch flwch 16.14 os ydych am i'ch priod neu bartner sifil gael y lwfansau sydd heb eu defnyddio **16.14**

- Ticiwch flwch 16.15 os ydych am gael lwfansau sydd heb eu defnyddio gan eich priod neu'ch partner sifil **16.15**

*Rhowch fanylion yn y blwch 'Gwybodaeth Ychwanegol', blwch 23.9, ar dudalen 10*

Os ydych am gyfrifo'ch treth eich hun, nodwch swm y lwfansau sy'n weddill a sydd ar gael i chi.

- Lwfans person dall sy'n weddill **16.16** £
- Lwfans pâr priod sy'n weddill **16.17** £

## C17 A oes gennych Fenthyciad Myfyriwr sy'n amodol ar Incwm, ac a ydych wedi derbyn rhybudd bod ad-daliadau wedi dechrau cyn 6 Ebrill 2006?

*Mae'n rhaid i chi ddarllen y nodiadau ar dudalen 30 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth cyn ticio'r blwch 'YDW'.*

***YDW***

**Os 'ydw'**, ticiwch y blwch hwn. Os nad yw'n gymwys, ewch i Gwestiwn 18.

**Os ydw**, a rydych yn cyfrifo eich treth eich hun nodwch yng Nghwestiwn 18, Blwch 18.2A y swm y cyfrifwyd gennych sy'n ad-daladwy yn 2005-06.

## C18 A ydych am gyfrifo eich treth a, lle bo'n briodol, cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 ac unrhyw Ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr?

***YDW***

Defnyddiwch eich Canllaw Cyfrifo Treth yna cwblhewch flychau 18.1 i 18.8 fel y bo'n briodol.

- Treth a dan dalwyd ar gyfer blynyddoedd cynharach a gynhwyswyd yn eich cod treth ar gyfer 2005-06 **18.1** £
- Treth a dan dalwyd ar gyfer 2005-06 a gynhwyswyd yn eich cod treth ar gyfer 2006-07 **18.2** £
- Ad-daliad Benthyciad Myfyriwr sy'n ddyledus **18.2A** £
- Cyfraniadau YG Dosbarth 4 sy'n ddyledus **18.2B** £
- Cyfanswm y dreth, Cyfraniadau YG Dosbarth 4 ac Ad-daliad Benthyciad Myfyriwr sy'n ddyledus ar gyfer 2005-06 **cyn** gwnaethoch unrhyw daliadau ar gyfrif *(nodwch y swm mewn cromfachau os yw'n ordaliad)* **18.3** £
- Treth sy'n ddyledus a gyfrifwyd trwy gyfeirio at flynyddoedd cynharach **18.4** £
- Gostyngiad yn y dreth sy'n ddyledus drwy gyfeirio at flynyddoedd cynharach **18.5** £
- Ticiwch flwch 18.6 os gwnewch gais i ostwng eich taliadau ar gyfrif am 2006-07. Dylech sicrhau eich bod yn nodi swm **gostynol** eich taliad cyntaf ym mlwch 18.7. Yna, nodwch pam yr ydych yn gwneud cais yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 23.9 ar dudalen 10 **18.6**
- Eich taliad cyntaf ar gyfrif ar gyfer 2006-07 *(dylech gynnwys y ceiniogau)* **18.7** £
- Nodwch unrhyw dreth ar gyfer 2006-07 yr ydych yn gwneud cais ar ei chyfer nawr **18.8** £

**C19** **A ydych am wneud cais am ad-daliad os ydych wedi talu gormod o dreth?** *(Os na fyddwch yn ticio 'Ydw' neu os bydd y dreth a ordalwyd gennych yn llai na £10, byddwn yn defnyddio'r swm sy'n ddyledus i chi er mwyn gostwng eich bil treth nesaf.)*

YDW ☐

**Os ydw,** ticiwch y blwch hwn. Yna, os ydych am roi eich holl ad-daliad neu ran ohono i elusen, ewch i Gwestiwn 19A; os ydych am wneud cais am ad-daliad ewch i Gwestiwn 19B.
**Os nad yw'n gymwys,** ewch i Gwestiwn 20.

**C19A** **A ydych am enwebu elusen i dderbyn eich holl ad-daliad neu rhan ohono?** *Gweler tudalen 30 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth.*

YDW ☐

**Os ydw,** ticiwch y blwch hwn ac yna darllenwch dudalen 30 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth. Cwblhewch flychau 19A.1 i 19A.5 fel y bo'n briodol.
**Os nad yw'n gymwys,** ewch i Gwestiwn 19B.

- Ticiwch flwch 19A.1 os ydych am enwebu elusen i dderbyn eich holl ad-daliad — **19A.1** ☐
- Os ydych am enwebu elusen i dderbyn rhan o'ch ad-daliad, nodwch y swm ym mlwch 19A.2 *– os ydych am i weddill eich ad-daliad gael ei dalu i chi neu eich enwebai, mae'n rhaid i chi gwblhau Cwestiwn 19B isod.* — **19A.2** £
- Cod yr elusen *– nodwch god yr elusen ym mlwch 19A.3. Gallwch gael cod yr elusen drwy ymweld a* ***www.hmrc.gov.uk****, ffonio'r Llinell Gymorth neu drwy gysylltu â ni.* — **19A.3** ☐☐☐☐☐☐☐☐ **G**
- Ticiwch flwch 19A.4 os ydych am ddefnyddio Rhodd Cymorth ac yn gwneud y datganiad isod — **19A.4** ☐
- Ticiwch flwch 19A.5 i gadarnhau y gallwn roi eich enw a'ch cyfeiriad i'r elusen pan fyddwn yn eu hysbysu am eich cyfraniad — **19A.5** ☐

**Datganiad Rhodd Cymorth** – Hoffwn i'm rhodd i'r elusen a enwebwyd gael ei thrin fel cyfraniad Rhodd Cymorth. Bydd yr elusen yn derbyn treth incwm ar y gyfradd sylfaenol ar ben fy rhodd. Cadarnhaf y byddaf yn talu treth incwm neu enillion cyfalaf yn 2006-07 a fydd gyfwerth a'r hyn y bydd yr elusen yn ei dderbyn ar ben fy nghyfraniad.

**C19B** **A ydych am i'ch ad-daliad gael ei dalu i chi neu i'ch enwebai**

YDW ☐

**Os ydw,** ticiwch y blwch hwn ac yna cwblhewch flychau 19B.1 i 19B.14 fel y bo'n briodol.
**Os nad yw'n gymwys,** ewch i Gwestiwn 20.

***Anfonir ad-daliadau yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. Dyma'r ffordd ddiogelaf a chyflymaf i'ch talu. Os nad oes gennych gyfrif, ticiwch flwch 19B.8. Os hoffech i'ch enwebai gael yr ad-daliad ticiwch flwch 19B.2 neu 19B.9.***

A ddylai'r ad-daliad gael ei anfon:

- i'ch cyfrif banc neu'ch cyfrif cymdeithas adeiladu? *Ticiwch flwch 19B.1 a chwblhewch flychau 19B.3 i 19B.7* — **19B.1** ☐
- Os nad oes gennych gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, darllenwch y nodiadau ar dudalen 30 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth, *a thiciwch flwch 19B.8* — **19B.8** ☐

**neu**

- i gyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu eich enwebai? *Ticiwch flwch19B.2 a chwblhewch flychau 19B.3 i 19B.7 a 19B.11 i 19B.14* — **19B.2** ☐
- Os hoffech i'r siec gael ei hanfon at eich enwebai, *ticiwch flwch 19B.9 a chwblhewch flychau 19B.11 i 19B.14* — **19B.9** ☐
- Os mai eich asiant yw'ch enwebai, *ticiwch flwch 19B.10* — **19B.10** ☐

Enw'r banc neu'r gymdeithas adeiladu

**19B.3** ☐

Enw deiliad y cyfrif

**19B.4** ☐

Cod didoli'r gangen

**19B.5** ☐

Rhif y cyfrif

**19B.6** ☐

Cyfeirnod y gymdeithas adeiladu

**19B.7** ☐

Cyfeirnod yr Asiant ar eich cyfer chi (os mai eich enwebai yw eich asiant)

**19B.11** ☐

Awdurdodaf fy

Enw'r enwebai/asiant

**19B.12** ☐

er mwyn derbyn y swm sy'n ddyledus ar fy ran

Cyfeiriad yr enwebai/asiant

**19B.13** ☐

Cod post

**19B.14** *Mae'n rhaid i'r awdurdod hwn gael ei lofnodi gennych. Ni fydd llungopi o'ch llofnod yn gwneud y tro.*

Llofnod

## GWYBODAETH ARALL *ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2006, parhad*

**C20** **A ad-dalwyd neu a wrthbwyswyd unrhyw dreth o 2005-06 eisoes gan eich Swyddfa Cyllid a Thollau EM neu'r Ganolfan Byd Gwaith?**
*Darllenwch y nodiadau ar dudalennau 30 a 31 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth.*

DO ☐

**Os do,** ticiwch y blwch hwn a nodwch swm yr ad-daliad ym mlwch 20.1.

20.1 £

**C21** **A yw eich enw neu'ch cyfeiriad ar flaen y Ffurflen Dreth yn *anghywir*?**
*Os ydych yn cwblau ffurflen sydd wedi ei chymeradwyo yn lle'r Ffurflen Dreth swyddogol, gweler y nodiadau ar dudalen 31 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth.*

YDY ☐

**Os ydy,** ticiwch y blwch hwn a gwnewch unrhyw gywiriadau ar flaen y ffurflen.

**C22** **Rhowch fanylion personol eraill ym mlychau 22.1 i 22.7.** *Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon.*

Eich rhif ffôn yn ystod y dydd (gan gynnwys y cod am yr ardal)

22.1

Rhif ffôn eich asiant (gan gynnwys y cod am yr ardal)

22.2

a'u henw a'u cyfeiriad

22.3

Cod post

Eich dau enw cyntaf

22.4

Nodwch os ydych yn sengl, yn briod/mewn partneriaeth sifil, yn ŵr gweddw/gwraig weddw/bartner sifil sy'n goroesi, wedi ysgaru/diddymu partneriaeth sifil neu wedi gwahanu

22.5

Rhowch eich dyddiad geni (Os cawsoch eich geni cyn 6 Ebrill 1941, efalli y cewch lwfans uwch ar sail oedran.)

22.6 / /

Nodwch eich rhif Yswiriant Gwladol
(os yw'n hysbys ac os nad yw ar dudalen 1 eich Ffurflen Dreth)

22.7

**C23** **Ticiwch flychau 23.1 i 23.4 a chwblhewch flychau 23.5 a 23.8 os ydynt yn gymwys. Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol ym mlwch 23.9 ar dudalen 10.**

- Ticiwch flwch 23.1 os nad ydych am i unrhyw dreth sydd arnoch ar gyfer 2005-06 gael ei chasglu drwy eich cod treth.
*Darllenwch Dyddiadau Allweddol ar dudalen 3 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth cyn cwblhau'r blwch hwn.* 23.1 ☐

- Ticiwch flwch 23.2 os yw'r Ffurflen Dreth hon yn cynnwys ffigurau sydd dros dro am nad yw'r ffigurau terfynol gennych eto. Mae tudalen 31 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth yn egluro'r amgylchiadau lle y gellir derbyn Ffurflenni Treth sy'n cynnwys ffigurau dros dro ac yn gofyn i chi roi gwybodaeth ychwanegol ym mlwch 23.9 ar dudalen 10. 23.2 ☐

- Ticiwch flwch 23.3 os ydych am wneud cais yn awr am golledion masnachu 2006-07 neu golledion cyfalaf penodol. Nodwch ym mlwch 23.9 y swm a'r flwyddyn. 23.3 ☐

- Ticiwch flwch 23.4 os ydych yn gwneud cais i gael derbyniadau ôl-derfynu neu dderbyniadau busnes eraill wedi'u trethu fel incwm o flwyddyn gynharach. Nodwch y swm a'r flwyddyn ym mlwch 23.9. 23.4 ☐

- **Datgelu cynlluniau osgoi treth** - os ydych yn gyfranogwr mewn un neu ragor o gynlluniau osgoi treth sy'n rhaid eu datgelu, mae'n rhaid i chi gwblhau blychau 23.5 a 23.6. Rhowch fanylion pob cynllun ar linell ar wahân. Os ydych yn gyfranogwr mewn mwy na 3 chynllun rhowch fanylion pellach ym mlwch 23.9 'Gwybodaeth Ychwanegol', ar dudalen 10.

Cyfeirnod y cynllun

23.5

Y flwyddyn dreth y disgwylir i'r manteision godi - y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill

23.6

- **Lwfans Adnewyddu Eiddo Busnes (BPRA)** - Darllenwch dudalen 32 yn y Canllaw i'r Ffurflen Dreth cyn cwblhau'r blychau hyn. Tynnwch y symiau sy'n cyfeirio at unrhyw geisiadau neu daliadau sydd â wnelo a BPRA allan o flychau 3.20 a 5.36 a blychau 3.21 a 5.33 (yn y Tudalennau Hunangyflogaeth a'r Tudalennau Tir ac Eiddo). Nodwch geisiadau am BPRA ym mlwch 23.7 a thaliadau ym mlwch 23.8.

| Lwfans cyfalaf | Tâl mantoli |
|---|---|
| 23.7 £ | 23.8 £ |

**23.9** *Gwybodaeth ychwanegol*

## C24 Datganiad

**Rwyf wedi cwblhau ac yn dychwelyd y tudalennau canlynol atoch:**

*Yn yr ail flwch nodwch nifer y setiau cyflawn o dudalennau atodol a amgaewyd gennych*

| | Ticiwch | Nifer | | Ticiwch | Nifer | | Ticiwch |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *1 I 10 O'R FFURFLEN HON* | | | | | | | |
| *CYFLOGAETH* | | | *PARTNERIAETH* | | | *YMDDIRIEDOLAETHAU AC ATI* | |
| *CYNLLUNIAU CYFRANDDALIADAU* | | | *TIR AC EIDDO* | | | *ENILLION CYFALAF* | |
| *HUNANGYFLOGAETH* | | | *TRAMOR* | | | *DI-BRESWYL AC ATI* | |

**Cyn dychwelyd eich Ffurflen Dreth wedi'i chwblhau, mae'n rhaid i chi lofnodi'r datganiad isod.**

**Os rhowch wybodaeth ffug neu os na ddatgelwch unrhyw ran o'ch incwm neu enillion trethadwy, gallech fod yn atebol i gosbau ariannol a/neu gallech gael eich erlyn.**

**24.1** **Mae'r wybodaeth a roddais yn y Ffurflen Dreth hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.**

Llofnod Dyddiad

**Prin iawn yw'r rhesymau pam y byddwn yn derbyn llofnod gan rywun pan nad y person hwnnw sy'n cyflwyno'r Ffurflen Dreth, ond os ydych yn llofnodi ar ran rhywun arall, darllenwch y nodiadau ar dudalen 32 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth, a:**

- nodwch ym mha rinwedd rydych chi'n llofnodi (er enghraifft, fel ysgutor neu fel derbynnydd)

**24.2**

- nodwch enw'r person rydych yn llofnodi ar ei ran/rhan

**24.3**

- Nodwch eich enw a'ch cyfeiriad mewn PRIF LYTHRENNAU ym mlwch 24.4

**24.4**

Cod post

UG 12/05. L18369

## *Gwybodaeth ychwanegol*

## *Gwybodaeth ychwanegol*